

# BRÎFF I YMGEISWYR COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU 2020

CANLLAW I DDYLETSWYDDAU  
COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU  
I GYNNAL CYNLLUN YMWELWYR  
ANNIBYNNOL Â DALFEYDD



**ICVA**  
The Independent Custody  
Visiting Association



**npm**  
national  
preventive  
mechanism

# YMWELWYR ANNIBYNNOL Â DALFEYDD

Mae'r cyhoedd yn rhoi ffydd yn yr heddlu i arestio a chadw unrhyw aelod o'r cyhoedd yr amheuir ei fod wedi troseddu. Mae'r gallu i amddifadu rhywun o'i ryddid cyn profi'r drosedd yn arf angenrheidiol ar gyfer cadw'r cyhoedd yn ddiogel ac yn sicrhau y gall y broses cyfiawnder troseddol ddilyn ei chwrs, ond rhaid cydbwysu'r pwerau hyn yn ofalus â sicrwydd a goruchwyliaeth briodol. Mae'n sylfaenol i'n system blismona drwy gydsyniad bod gan y cyhoedd hyder bod pobl sy'n cael eu cadw yn y ddalffa yn cael eu trin mewn ffordd dryloyw, gyfreithlon a moesegol.

## BETH YW YMWELWYR ANNIBYNNOL Â DALFEYDD?

Sefydlwyd ymwelwyr annibynnol â dalffeydd i ddatblygu ymddiriedaeth yn yr heddlu yn dilyn terfysgoedd Brixton yn yr 1980au. Mae wedi bod yn ofyniad cyfreithiol ers 2003 ac fe'i ehangwyd i gwmpasu terfysgaeth yn 2009.

Mae gan bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu ddyletswydd statudol i redeg cynllun ymwelwyr annibynnol â dalffeydd, lle mae aelodau lleol o'r cyhoedd yn gwirfoddoli i wasanaethu fel Ymwelwyr Annibynnol â Dalffeydd, gan ymweld yn rheolaidd, yn ddirybudd â dalffeydd yr heddlu i wirio hawliau a llesiant carcharorion yn ogystal â'r amodau y maen nhw'n cael eu cadw.

Mae'r Ymwelwyr Annibynnol â Dalffeydd yn siarad â charcharorion, gan ofyn iddynt am eu profiadau, a byddant yn adolygu cofnodion y ddalffa i wirio bod carcharorion yn cael eu trin yn briodol a bod mesurau diogelwch perthnasol ar waith. Gall Ymwelwyr Annibynnol â Dalffeydd gael mynediad i bob rhan o ystafell y ddalffa i sicrhau amodau da a stoc o fwyd, dillad a hanfodion eraill.

Bydd Ymwelwyr Annibynnol â Dalffeydd yn gofyn i staff y ddalffa ddatrys unrhyw bryderon neu broblemau uniongyrchol yn ystod yr ymweliad. Maent yn cwblhau adroddiadau ymweld, gan roi gwybod i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu o'u canfyddiadau ac yn codi problemau neu bryderon. Mae cynlluniau hefyd yn rhannu canfyddiadau, themâu a dysg gyda'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalffeydd ar lefel genedlaethol.

Mae gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu ddyletswydd i hyrwyddo eu cynlluniau, gan roi sicrwydd i'r cyhoedd bod carcharorion yn cael eu trin yn unol â'r gyfraith a chydag urddas yn nalfa'r heddlu.

## PAM MAE YMWELIADAU ANNIBYNNOL Â DALFEYDD YN DIGWYDD?

Drwy waith Ymwelwyr Annibynnol â Dalffeydd, gall Comisiynydd Heddlu a Throseddu roi sicrwydd i'r cyhoedd bod pobl sy'n cael eu cadw gan yr heddlu yn ardal eu llun yn cael eu trin mewn ffordd gyfreithlon, foesegol a thryloyw.

Mae dalffa'r heddlu yn amgylchedd o bwysau a risg uchel. Bob dydd, mae swyddogion yr heddlu a staff sy'n gweithio mewn ystafelloedd y ddalffa yn rhyngweithio â phobl ac yn gofalu amdanyn nhw mewn amgylchiadau anodd. Gall unigolion sy'n cael eu cadw fod yn ymosodol, mewn trallod neu'n agored iawn i niwed. Efallai bod ganddyn nhw anghenion cymhleth, gan gynnwys problemau cyffuriau ac alcohol, salwch meddwl neu broblemau iechyd corfforol.

Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalffeydd yn darparu diogelwch gwerthfawr i garcharorion ac i heddluoedd. Mae ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â Dalffeydd yn helpu i atal camdriniaeth a niwed ymhlith carcharorion, ac mae Arolygwyr Dalffeydd yn gwerthfawrogi gwaith yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalffeydd wrth gyfrannu at amgylchedd diogel a gwella'r ddalffa yn barhaus. Bydd gan gynlluniau da berthnasol adeiladol gyda'r heddlu a chânt eu gwerthfawrogi am eu goruchwyliaeth.

MAE YMWELWYR ANNIBYNNOL Â DALFEYDD  
YN CYNNIG DIOGELWCH GWERTHFAWR I  
GARCHARORION A'R HEDDLU.

## EICH DYLETSWYDDAU FEL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU

Mae Cod Ymarfer, a gymeradwywyd gan y Senedd, yn nodi dyletswyddau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau o ran ymweliadau annibynnol â dalfeydd:

- Bod yna gynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd cadarn ac effeithiol ar waith yn eich ardal chi gydag adnoddau priodol ac aelod staff enwebedig sy'n gyfrifol am y cynllun.
- Bod ymweliadau rheolaidd yn cael eu cynnal ym mhob maes o ddalfa'r heddlu, gan gynnwys cadw terfysgwyr.
- Bod eich gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi a'u rheoli'n dda.
- Bod rheolwr y cynllun yn rhoi adroddiadau rheolaidd i chi ar faterion o fewn y ddalfa ac y gallwch nodi'r problemau a'r tueddiadau.
- Bod gennych gyfleoedd rheolaidd a ffurfiol i leisio pryderon gyda'r heddlu a bod yr heddlu a phartneriaid yn ymdrin â phryderon a godwyd gan yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd.
- Os oes gennych gyfleuster cadw terfysgwyr yn eich ardal chi, bod Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn cyflwyno eu hadroddiadau i'r Adolygydd Annibynnol o Ddeddfwriaeth Terfysgaeth.

Mae Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd yn rhan o waith ledled y DU i atal artaith a chamdriniaeth carcharorion. Mae ymweliadau annibynnol â dalfeydd yn rhan o'r Mekanwaith Atal Cenedlaethol sy'n ofynnol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig i atal arait.

## PA EFFAITH MAE YMWELIADAU ANNIBYNNOL Â DALFEYDD YN EI CHAEL?

Mae'r adroddiadau gan ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi ysgogi gwelliannau ledled y ddalfa. Mae enghreifftiau diweddar o rywfaint o waith gwyd yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, bach a mawr, yn cynnwys:

- Canfu Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd nad oedd carcharorion benywaidd yn derbyn gofal mislif digonol gyda rhai carcharorion yn cael eu gadael heb gynhyrchion mislif. Gweithiodd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd gyda'r Swyddfa Gartref, Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, Cyngor Cenedlaethol Penaeithiad yr Heddlu a'r Coleg Plismona i newid canllawiau, deddfwriaeth ac arferion i sicrhau bod carcharorion yn derbyn yr angen sylfaenol hwn.
- Gweithiodd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a Chymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd gyda'r Swyddfa Gartref a phartneriaid cenedlaethol i sicrhau bod gan garcharorion fynediad i urddas sylfaenol fel sicrhau bod ardaloedd y toiledau yn annelwig ar gamerâu fideo monitro a bod gan garcharorion fynediad i gyfleusterau ymolchi.

- Dylai carcharorion bregus gael mynediad at Oedolyn Priodol, a fydd yn eu helpu i ddeall proses ddalfa'r heddlu. Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi nodi problemau wrth gael mynediad i'r diogelwch hwn, sydd wedi arwain at welliannau i'r gwasanaeth hwn.

## CYMDEITHAS YMWELWYR ANNIBYNNOL Â DALFEYDD

Mae Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn sefydliad cenedlaethol sy'n arwain, yn cefnogi ac yn cynrychioli cynlluniau ymweld annibynnol â dalfeydd. Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddau ym mhob rhanbarth plismona yn enwebu cynrychiolydd i Fforwm Arbenigol Cenedlaethol Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd i gynrychioli cynlluniau lleol. Mae Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn darparu deunyddiau, cymorth a chynrychiolaeth sy'n galluogi Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a'u staff i gyflawni cynlluniau o ansawdd uchel. Mae Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn darparu:

- Cylchlythyron, deunydd briffio a chanllawiau polisi sy'n sicrhau bod gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau y wybodaeth ddiweddaraf ar bolisi dalfeydd a'u dyletswyddau.
- Adnoddau hyfforddi sy'n darparu datblygiad proffesiynol cyfoes i reolwr a gwirfoddolwyr y cynlluniau.
- Gwefan i aelodau sy'n darparu llyfrgell o adnoddau a fforwm ar gyfer trafodaeth.
- Fframwaith Asesu Ansawdd sy'n amlinellu beth yw cynllun da, sbarduno gwelliannau a dathlu llwyddiannau eich cynllun lleol.
- Mynediad i ddwy gynhadledd flynyddol sy'n cyflwyno cyflwyniadau wrth weithwyr proffesiynol ar frig eu gyrfaoedd, hyfforddiant a diolch i wirfoddolwyr am eu gwaith.
- Mynediad i Fforwm Arbenigwyr Cenedlaethol i rannu arferion, yr hyn a ddysgwyd, adnoddau a chynnal prosiectau ar y cyd.
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda chyrrff cenedlaethol, gan gynnwys y Swyddfa Gartref, i roi llais cenedlaethol i'ch cynlluniau ar faterion y ddalfa.
- Mae'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn cynrychioli cynlluniau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yng Nghymru a Lloegr yn y Mekanwaith Atal Cenedlaethol, drwy helpu i gyflawni'ch dyletswyddau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig.
- Rydym yn gweithio gyda set o gynlluniau i beilotia dulliau newydd ar gyfer ymweliadau annibynnol â dalfeydd i sicrhau bod cynlluniau yn effeithiol yn y dyfodol.

Am wybodaeth bellach, ewch i'n gwefan [icva.org](http://icva.org).  
uk neu dilynwch ni ar Twitter [@CustodyVisiting](https://twitter.com/CustodyVisiting)  
a [@projectCVA](https://twitter.com/projectCVA)



The image features a dark teal background with a grid of rounded squares in various shades of teal, grey, and light blue. In the center-right, there is a faint image of a person's face. The ICVA logo is positioned in the middle-right area, consisting of the letters 'ICVA' in a stylized font, with 'The Independent Custody Visiting Association' written below it.

ICVA  
The Independent Custody  
Visiting Association

[WWW.ICVA.ORG.UK](http://WWW.ICVA.ORG.UK)